

# YMATEB I ARGYMHELLION GAN Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: YMCHWILIAD I FYNEDIAD AT DECHNOLEGAU MEDDYGOL YNG NGHYMRU

## Argymhellion 1, 2, 3

---

- 1. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fel mater o flaenoriaeth, nodi sut y caiff dull mwy strategol, cydgysylltiedig a syml o fabwysiadu technolegau meddygol ei roi ar waith. Dylai'r dull gweithredu hwn:**
  - a. gael ei lywio gan angen clinigol ac anghenion y boblogaeth;**
  - b. sicrhau y caiff buddsoddi mewn technolegau newydd, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ei flaenoriaethu'n effeithiol ochr yn ochr â rhaglen o ddatfuddsoddi mewn cyfarpar nad yw'n gyfredol/effeithiol;**
  - c. cynnig mynediad teg at driniaethau newydd priodol i gleifion Cymru; a**
  - d. hwyluso'r broses o gynnwys pob rhanddeiliad, gan gynnwys clinigwyr, cleifion, diwydiant a phartneriaid ymchwil.**
- 2. Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod dull strategol o ddatblygu a mabwysiadu technoleg meddygol yn cynnwys lleisiau gofal sylfaenol a gofal cymunedol yn ddigonol, a bod arloesi ac arferion gorau mewn lleoliadau gofal sylfaenol a gofal cymunedol yn cael eu nodi a'u rhannu'n ehangach.**
- 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o fewn 12 mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn, ddatblygu opsiynau ar gyfer dull o arfarnu technolegau meddygol i Gymru gyfan, er mwyn cyflawni swyddogaeth debyg o ran technolegau meddygol ag a gyflawnir gan Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan o ran meddyginiaethau.**

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r byrddau iechyd, Ymddiriedolaethau'r GIG a rhanddeiliaid allweddol eraill i ddatblygu a gweithredu dull cydlynol, cenedlaethol o arfarnu, mabwysiadu a gwaredu technoleg.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod cryfder dull Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru Gyfan, fydd yn un o nifer o opsiynau i'w hystyried yn ystod 2015. Bydd tystiolaeth ac adroddiad y Pwyllgor yn ffynhonnell ddefnyddiol i gyfeirio ati ac i gael barn arbenigol wrth ddatblygu'r opsiynau hyn. Bydd swyddogion hefyd yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid cyflawni allweddol er mwyn sicrhau bod y dull a ddewiswyd yn effeithlon ac yn effeithiol, yn ogystal â bod yn strategol, yn gydlynol ac wedi ei symleiddio.

Bydd ein dull o arfarnu a mabwysiadu technoleg yn adlewyrchu egwyddorion gofal iechyd darbodus a chydgyhyrchu. Bydd hyn yn sicrhau y bydd datblygu a darparu unrhyw strategaeth yn y dyfodol ar gyfer technoleg feddygol, arloesi ac arfer gorau yn ffrwyth gwrando ar ystod eang o leisiau. Bydd hynny'n cynnwys clinigwyr a darparwyr gwasanaeth gofal sylfaenol a chymunedol, ac hefyd y cyhoedd a chleifion. Mae hynny'n neilltuo o bwysig ar gyfer y mathau o dechnoleg ddigidol a thechnoleg defnyddwyr sy'n galluogi rhannu'r cyfrifoldeb am iechyd a lles, a helpu i leihau'r galw am wasanaethau gofal iechyd.

## **YMATEB I ARGYMHELLION GAN Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: YMCHWILIAD I FYNEDIAD AT DECHNOLEGAU MEDDYGOL YNG NGHYMRU**

Mae'n debyg iawn y bydd goblygiadau ariannol i'r gwaith hwn. Caiff y costau llawn eu cyfrifo fel rhan o'r gwaith pellach i benderfynu cwmpas a datblygu'r dull sydd fwyaf priodol i Gymru.

### **Argymhellion 4, 5**

---

- 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gymryd camau i sicrhau bod arweiniad NICE ar dechnolegau meddygol yn cael ei ledaenu o fewn GIG Cymru mewn modd amserol ac yn cael ei ystyried yn llawn wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.**
- 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau y caiff y broses o fabwysiadu technolegau meddygol a argymhellir ledled Cymru, gan gynnwys y rhai a argymhellir gan NICE, ei mesur fel rhan o broses archwilio ffurfiol.**

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae arweiniad a gyhoeddir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn cael ei ledaenu'n uniongyrchol a phrydlon i sefydliadau GIG Cymru gan NICE, drwy bolisi Llywodraeth Cymru ac arweinwyr proffesiynol, a thrwy rwydweithiau clinigol cenedlaethol.

Ym mis Mai 2014 sefydlwyd Grŵp Cyswllt NICE i godi ymwybyddiaeth o arweiniad NICE a chynorthwyo byrddau iechyd i ystyried yr arweiniad wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae Fframwaith Cynllunio GIG Cymru yn cynnwys cyfeiriadau at arweiniad NICE, a chaiff hyn ei adolygu ymhellach yn dilyn gwerthusiad o broses gynllunio 2015-2018, sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Fel y dywedwyd eisoes, dewisir trefn arfarnu technoleg ar ôl ystyried yr opsiynau. Bydd yn darparu ar gyfer monitro i ba raddau y manteisir ac y mabwysiedir technolegau ledled Cymru, ond efallai na fydd hon yn broses archwilio ffurfiol, ac efallai y bydd yn canolbwyntio ar dechnolegau sy'n cael effaith fawr, ac felly mae'n bosibl na fydd yn cynnwys yr holl dechnolegau a argymhellir gan NICE.

Nid yw arweiniad NICE ynglŷn â thechnolegau meddygol yn fandadol ac efallai na fydd bob amser yn briodol i fabwysiadu'r technolegau a argymhellir gan NICE. Efallai y bydd technolegau neu lwybrau triniaeth gwahanol, ac ni ddylid ystyried arweiniad NICE ar dechnoleg yn awtomatig yn bwysicach na chyfrifoldeb gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i wneud penderfyniadau sy'n addas i amgylchiadau'r claf, neu a gytunwyd ag ef/hi, gan ddilyn egwyddor gofal iechyd doeth.

## **YMATEB I ARGYMHELLION GAN Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: YMCHWILIAD I FYNEDIAD AT DECHNOLEGAU MEDDYGOL YNG NGHYMRU**

### **Argymhellion 6, 7**

---

- 6. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatblygu a sefydlu dull mwy strategol o gomisiynu technolegau meddygol newydd yng Nghymru y mae'n rhaid iddo fod yn gysylltiedig â phroses arfarnu a gwerthuso gadarn.**
- 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod dull cenedlaethol o gomisiynu yn cael ei fabwysiadu mewn achosion lle:**
  - a. mae effaith technolegau meddygol arfaethedig ar y gyllideb yn fawr;**
  - b. mae angen diwallu anghenion poblogaeth ehangach;**
  - c. mae angen i wasanaethau gael eu comisiynu ar draws ffiniau byrddau iechyd; a/neu****ch mae potensial i gomisiynu triniaeth o rannau eraill o'r DU.**

#### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) yn darparu dull cenedlaethol o gomisiynu mewn rhai meysydd clinigol, ond ni fyddai'n addas ymestyn ei faes gorchwyl i gynnwys yr holl dechnolegau meddygol, gan fod llawer ohonynt heb fod o natur arbenigol. Mae'r mathau hyn o dechnolegau yn cael eu darparu yn gyffredinol gan Gydwasanaethau GIG Cymru, sy'n rhedeg gwasanaeth caffael cenedlaethol.

Wrth ddatblygu opsiynau ar gyfer dull cenedlaethol o arfarnu a mabwysiadu technoleg cymerir i ystyriaeth sut y bydd yn cysylltu gyda'r gwasanaethau comisiynu a chaffael, fel y bydd y llwybr priodol i fabwysiadu'r dechnoleg yn cael ei wneud yn gliriach ac yn cael ei ddilyn yn gyson ar draws Cymru. Bydd hyn hefyd yn ei gwneud yn bosibl datgomisiynu a gwaredu technoleg mewn ffordd fwy cydlynol, lle bo hynny'n briodol.

### **Argymhelliad 8**

---

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi manylion y camau gweithredu y bydd yn eu cymryd i ddatblygu'r dull o fabwysiadu technolegau meddygol yng Nghymru ymhellach. Dylai hyn gynnwys arwydd o'r ffordd y caiff prosiect Comisiynu drwy Werthuso yn Lloegr, ac opsiynau eraill ar gyfer gwerthuso, eu hystyried a'u haddasu ar gyfer cyd-destun Cymru.**

#### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Cymru'n cymryd rhan yn y rhaglen Comisiynu drwy Werthuso, sy'n edrych ar nifer fechan o dechnolegau triniaeth arbenigol. Nid yw'n glir sut y gellid cymhwyso'r dull hwn i nifer lawer mwy o dechnolegau meddygol cyffredinol ond edrychir i mewn i hyn wrth ddatblygu ac ystyried y dewisiadau ar gyfer arfarnu a mabwysiadu technoleg.

# **YMATEB I ARGYMHELLION GAN Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: YMCHWILIAD I FYNEDIAD AT DECHNOLEGAU MEDDYGOL YNG NGHYMRU**

## **Argymhelliad 9**

---

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ystyried rhoi systemau ar waith i fanteisio i'r eithaf ar dechnolegau meddygol newydd i gleifion ledled Cymru drwy sicrhau bod staff y GIG yn gallu cael yr hyfforddiant priodol.**

### **Ymateb: Derbyn**

Mae llawer o dechnolegau yn gofyn am hyfforddiant priodol neu am newidiadau mewn arferion ac ymddygiad. Nid yw hynny wedi ei gyfyngu i staff y GIG, gan fod llawer o dechnolegau wedi eu cynllunio i'w defnyddio gan gleifion a gofalwyr mewn lleoliadau y tu allan i'r GIG. Bydd ystyried y gofynion hyfforddiant felly'n ffurfio rhan o arfarnu, mabwysiadu a gwerthuso technolegau meddygol.

Caiff pwnc pwysigrwydd hyfforddiant wrth gyflwyno technolegau newydd ei godi gyda Chyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol GIG Cymru, fel y gallant roi cyngor sut y gall hyfforddiant staff fod o gymorth i gyflymu mabwysiadu technolegau meddygol newydd a chynyddu eu manteision i'r eithaf.

## **Argymhelliad 10**

---

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol amlinellu'r camau y bydd yn eu cymryd i hwyluso'r gwaith o ddatblygu ymhellach dreialon clinigol a gwaith ymchwil a datblygu a arweinir gan anghenion yng Nghymru gan gynnwys sut y bydd y rhain yn ymwneud â'r broses o asesu/arfarnu technoleg feddygol.**

### **Ymateb: Derbyn**

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (NISCHR) yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid cyllido drwy'r DU, elusennau ymchwil feddygol ac Adrannau Iechyd eraill yn y DU, gan gymryd rhan mewn ystod eang o raglenni'r DU sy'n agor ffrydiau cyllido sylweddol ar gyfer ymchwilwyr sy'n seiliedig yng Nghymru.

Mae Ymchwil Iechyd Cymru wedi chwarae rhan bwysig yn hyrwyddo partneriaethau cydweithredol i ddatblygu technolegau meddygol a threialon clinigol cysylltiedig. Er mwyn cefnogi ei ddatblygiad pellach, bydd y gwasanaeth hwn yn ffurfio rhan greiddiol o isadeiledd newydd y NISCHR sydd i gael ei ddarparu gan Ganolfan Cefnogi NISCHR o 1 Ebrill 2015.

Caiff datblygiad technoleg sy'n seiliedig ar anghenion yng Nghymru ei gefnogi drwy fecanweithiau megis Rhaglen Gatalydd Menter Ymchwil Busnesau Bach (SBRI) a Chronfa Technoleg Iechyd a Theleiechyd.

## **YMATEB I ARGYMHELLION GAN Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: YMCHWILIAD I FYNEDIAD AT DECHNOLEGAU MEDDYGOL YNG NGHYMRU**

Bydd Llywodraeth Cymru'n cefnogi rhaglenni eraill o'r math hwn, sy'n alinio datblygiadau mewn technoleg gydag anghenion a heriau a ganfuwyd.

### **Argymhelliad 11**

---

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sicrhau bod modelau o gynrychiolaeth cleifion a gofalwyr briodol yn cael eu hystyried a'u rhoi ar waith mewn gwaith ymchwil i dechnolegau meddygol a chynorthwyol a'r gwaith o'u datblygu, eu harfarnu a'u gwerthuso.**

#### **Ymateb: Derbyn**

Mae cynlluniau a ariennir gan NISCHR a phartneriaid cyllido eraill yn y DU o blaid ymgysylltu â'r cyhoedd a'r cleifion ar bob cam o'r broses ymchwil a datblygiad, ac maent yn gosod pwyslais neilltuol ar bwysigrwydd ymgysylltiad cynnar a rhyngweithio parhaus rhwng cydweithredwyr ac aelodau priodol o'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth a chleifion.

Mae NISCHR yn cefnogi rhwydwaith ymgysylltiad y cyhoedd, sy'n sicrhau mewnbwn gan y cyhoedd a chleifion i gynigion ymchwil ar bob cam datblygiad. Caiff y rhwydwaith hwn o fwy na 100 o bobl ei ddatblygu ymhellach fel rhan o isadeiledd newydd y NISCHR sydd i gychwyn o 1 Ebrill 2015.

### **Argymhelliad 12**

---

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol nodi'r camau y bydd yn eu cymryd, a'r amserlenni cysylltiedig, er mwyn sicrhau y gall strwythurau ariannol a phrosesau cyllidebol GIG Cymru gefnogi'r broses o fabwysiadu technolegau meddygol priodol yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys cyfeiriad at waith cynllunio yn y tymor hwy a sicrhau perthynas agosach rhwng arian cyfalaf ac arian refeniw.**

#### **Ymateb: Derbyn**

Mae Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 yn cefnogi cynllunio cyfalaf a refeniw tymor hirach, sy'n galluogi GIG Cymru i gefnogi mabwysiadu technoleg feddygol briodol yn fwy effeithiol. Mae proses datblygu achos busnes Llywodraeth Cymru yn cynnwys yr angen i sicrhau bod cyllido cyfalaf a refeniw yn fforddiadwy.

Mae Rhwydwaith Cynllunio'r GIG yn disgrifio dull o gynllunio gwasanaeth sydd wedi ei flaenoriaethu a'i integreiddio, sy'n dwyn ynghyd gynlluniau gwasanaeth, gweithlu, refeniw a chyfalaf. Mae Rhwydwaith Cynllunio'r GIG a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2014 o blaid mabwysiadu technoleg briodol, a chaiff Cynlluniau Canolradd Integredig fydd yn dilyn gan sefydliadau GIG Cymru eu hadolygu yng Ngwanwyn 2015.

## **YMATEB I ARGYMHELLION GAN Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL: YMCHWILIAD I FYNEDIAD AT DECHNOLEGAU MEDDYGOL YNG NGHYMRU**

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried camau gweithredu a gofynion penodol i'w cynnwys yn Fframwaith Cynllunio nesaf y GIG, sydd i gael ei gyhoeddi yn 2015. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd o gryfhau ymhellach yr aliniad rhwng cyllid cyfalaf a chyllid refeniw fel rhan o'i adolygiad o Broses Arweiniad Cyfalaf, Achos Busnes a Chymeradwyaeth GIG Cymru.

### **Argymhelliad 13**

---

**Dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol weithio gydag awdurdodau lleol a byrddau iechyd i rannu arfer da ac ystyried datblygiad model ariannu sy'n seiliedig ar lwybr y cleifion.**

#### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol yn atebol am ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal, gan gynnwys iechyd a lles y cyhoedd. Caiff y gwasanaethau hynny eu darparu'n uniongyrchol a thrwy amrywiaeth eang o ddarparwyr gwasanaethau, yn enwedig yn sectorau gofal sylfaenol a gofal cymunedol.

Mae Llywodraeth Cymru'n annog ac yn cynorthwyo awdurdodau lleol a byrddau iechyd i weithio gyda'i gilydd a chydag eraill. Mae hefyd yn annog gweithio mewn ffordd fwy integredig a rhannu gwybodaeth yn well rhwng darparwyr iechyd a gofal.

Bydd ystyriaeth o fodolau ariannu newydd ochr-yn-ochr â gwaith ehangach i wella mynediad at dechnolegau meddygol yng Nghymru.